# Gall goleuo croen fod yn boen

Mae pobl yn defnyddio cynhyrchion goleuo croen am resymau cymdeithasol a phersonol cymhleth.

**Mae llawer o'r cynhyrchion hyn yn anghyfreithlon yn y DU a chanfuwyd eu bod yn cynnwys sylweddau niweidiol.**

Nid yw eli croen anghyfreithlon wedi cael prawf diogelwch.

Nid oes unrhyw sicrwydd caiff eu creu mewn amodau glanweithiol, ac nid oes unrhyw sicrwydd eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.



**Gall hufenau goleuo croen anghyfreithlon achosi cyflyrau fel acne ac ecsema. Gallant hefyd arwain at anffurfiad parhaol a phroblemau iechyd hirdymor difrifol.**



## Adnabod beth rydych chi'n prynu

Mae rhai hufenau goleuo'r croen yn gyfreithlon, ond mae llawer wedi'u gwahardd oherwydd eu cynhwysion niweidiol.

Mae'r cynhwysion gwaharddedig peryglus hyn yn cynnwys hydroquinone, mercwri a meddyginiaethau trwyddedig fel corticosteroidau.

Mae hufenau sy'n cynnwys y sylweddau hyn yn anghyfreithlon yn y DU ac Ewrop am resymau diogelwch.

Canfuwyd bod hufenau goleuo'r croen sy'n cael eu gwerthu'n anghyfreithlon yn y DU yn cynnwys dwywaith cymaint o gynhwysion steroid gweithredol a ganiateir mewn cynhyrchion presgripsiwn.

Dim ond achos bod rhywbeth ar werth, nid yw'n golygu ei fod yn ddiogel.

### Darllenwch y label bob tro

Rhaid i gynhyrchion cosmetig sydd ar werth yn y DU ddangos enw a chyfeiriad y gwneuthurwr neu'r mewnforiwr, a'r cynhwysion.

**Peidiwch byth â defnyddio cynhyrchion goleuo croen heb drafod yn gyntaf gyda'ch dermatolegydd neu feddyg.**

**Byddant yn cynghori ar ddull gweithredu diogel sy'n iawn i chi.**

**Peidiwch byth â defnyddio cynhyrchion ysgafnu goleuo croen anghyfreithlon a brynwyd o siopau neu dros y rhyngrwyd.**

**Peidiwch byth â defnyddio cynhyrchion goleuo croen ar blant.**

Chartered Trading Standards Institute

Am ragor o wybodaeth, ewch i:
**www.tradingstandards.uk/cosmetics**